# Annual Report 2022/23

## *Cyngor Cymuned Tregolwyn*
## *Colwinston Community Council*

Colwinston sits in the Vale of Glamorgan, just a few miles west of Cardiff and not far from the market town of Bridgend. With a population of around 400, it is a tiny and quiet little place, best known for its connections with the crime writer Agatha Christie. Her relatives still live in the village who she visited on a regular basis.

Information on the council, its members and its activities can be found on the council website.
https://www.colwinstoncommunitycouncil.co.uk/




Colwinston is one of three villages in Wales known as a thankful village as it suffered no casualties during the 1st World War

**Chairmans Foreword**

The Community Council has been focused on improvements within our community during the past year. We are pleased with the establishment of the Old Ford Project Group who have taken on the task of making improvements in that area with an attractive wildflower meadow.

The major task for the Council has been to respond to the Local Democracy and Boundary Commission who have asked for representations in relation to their review of the community arrangements of the County Borough of the Vale of Glamorgan. The Vale of Glamorgan Council consider that there are too many Community Councils in the Vale and would like to see a reduction in the number. Colwinston Community Council are of the view that this would not be beneficial and have made our representations accordingly.

The Community Council are keen to hear from villagers about possible improvements that could be made within our community and welcome suggestions.




The Colwinston Community Council is made up of 7 Councillors and Clerk

Chairman – Councillor E Lewis
ehlewisccc@gmail.com

Vice Chairman – Councillor G Jones
garethjccc@gmail.com

Councillor B Morris
brian.morrisccc@uwclub.net

Councillor C Hadley
carltwmpath@gmail.com

Councillor Huw Thomas
HHThomasccc@gmail.com

Councillor J Lloyd (Resigned May 2023)
Vacancy yet to be filled

Councillor Tanya Wilson (Resigned May 2023)
Vacancy yet to be filled

Clerk Ms Sian Hookins
colwinstoncc@gmail.com

Cllr Christine Cave has been the elected County Councillor for Colwinston since 2017. She successfully stood for re-election in May 2022. During 2023 she continued to support CCC in their interactions with the Vale of Glamorgan council. She has given her support to various conservation projects in the village and lobbied the council for a rural roads policy and better access to the recycling centre in Llandow. She regularly attends the CC meetings and can be contacted by email on cacave@valeofglamorgan.gov.uk

**Financial Information**

**Annual Report 31 March 2023**

| | | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|
| **Income** | | | |
| | Precept | 15 | |
| | Grants | 20 | |
| | VAT Refund | 3 | |
| | | | **38** |
| **Expenditure** | Running Costs | 10 | |
| | Project Costs | 24 | |
| | VAT | 3 | |
| | | | **37** |
| **Surplus/Deficit** | | | **1** |

**Audit**

2022/23

The Internal Audit has been conducted by H A Davies who concluded the following comments:

*I am satisfied that the transactions carried out were properly recorded in the Minutes and the supporting documentation. As a consequence, I am able to confirm all of the requirements in the Annual Return for Internal Audit have been met and have signed off the relevant section as evidence of this conclusion.*

The External Audit is yet to be concluded

2021/22

Audit Wales office have completed their Audit with an unqualified report with no matters of attention.

<table>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td><u>Activities &</u><br><br>There is an ongoing discussion concerning the adoption of The Vines and Heol Cae Pwll by the Vale and whilst there has been some progress, we still await the Vale to accept these roads for maintenance.<br>The Council is in discussion with HM Land Registry to obtain formal title over parcels of land in the village which were part of the Parish but the documentation has been lost. It should be noted that nearly 40 years of Community Council records are missing and we believe were destroyed.</td><td><u>Projects</u><br><br>The Old Ford Project<br>During the year the Council completed their grant funded project known locally as the old ford project. The area now has a pond and wild flower area and a ancient woodland that sits along side a restored well and clapper bridge. Unfortunately due to the restricitions of funding the state of the trees in the area has taken more of the money than originally intended.</td></tr>
<tr><td>A Dry Well<br> <br>During the drought this summer the well water practically disappeared. This allowed the Stone Mason to really study the walls of the well which unfortunately showed several cracks and bowing. To remedy this, struts have been attached to support and protect from collapse. This drop in water level hasn’t happened for 50 years but of course if it happens more regularly than a more substantial repair will need to carried out. As the water has started to rise again the soil has been left on the steps to aid preservation and an extended grill has been added to ensure people are safe as they peer in and to protect the stone slab which has a 1980 date scratched into it.</td><td>European fresh water eels<br>As the water level dropped a little surprise emerged at the bottom.<br>Confirmed by the Natural history Museum and London Zoological Society there are several European Fresh Water eels living at the bottom.<br>Considered endangered the Council are committed to protecting their habitat.<br>There are reputedly several found in Loch Ness and the Colwinston Council have called this one Collwellie!<br></td></tr>
<tr><td><u>Boundary Commision</u><br>The Vale of Glamorgan are conducting a review of their boundaries, this may result in the merger of smaller Community Councils that have an electorate under 1000 people. Colwinston responded to the</td><td><u>Local Development Plan</u><br>The Vale of Glamorgan are currently updating their Local Devopment plan. This is a plan of how and where future devlopments will happen in the Vale.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>consultation highlighting all the local groups and individulaism of the Community and how their merger with other council who are all a fair distance would lose this.</td><td>Several sites have been highlighted within Colwinston and the council will continue to respond to consultaions on these proposals. We encourage people to keep up to date with these. Additional information can be found on the Vale of Glamorgan Website.</td></tr>
<tr><td colspan="2"><u>Fibre optic broadband and mobile phones.</u><br>Another frustrating year. Since we first applied to Openreach, over four years ago, to have FOB installed across the Colwinston area the UK and Welsh governments have changed the voucher schemes at least twice. In both cases we completed the application, which required an enormous amount of detail, in time. But the schemes were changed before we passed through the system. We are now waiting on the outcome of various reviews to see what happens next. In the meantime, some properties have been connected to FOB, about 25. We have also talked to a commercial company, Netomnia, but they do not seem interested. New housing estates are easier than a rural village.<br>We did arrange with a company in Cambridge for them to install a mobile phone booster on the new school. We even obtained a transmission licence, but the Vale refused to let us drill holes in the school wall. We are trying to put one on the village hall but at the moment we cannot obtain a grant. The village hall committee are happy for us to drill holes in the hall</td></tr>
<tr><td><u>Future Plans</u><br>The Council has spent a lot of money in the past few years on community projects and so needs to be mindful of it budgeting. This means that they have put their precept up for the coming year to assist in complateing their aims and having enough money to continue maintaining and helping the community.<br>The most pressing aim of the counil is to seek additional funding to complete the maintenance of the woodland to open this up to the public for their enjoyment. The Council also are very proactive in preserving their environment and hope to focus on the listed milestones and post box in the future.</td><td>If you wish any further details or have any questions about any aspect of the council then please do contact us.<br><br>The Council members are often around the village or will be at their meeting every 3rd Monday of the month at the village hall</td></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
</table>

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

*Cyngor Cymuned Tregolwyn*
*Colwinston Community Council*

Lleolir Tregolwyn ym Mro Morgannwg, ychydig filltiroedd i'r gorllewin o Gaerdydd a nepell o dref farchnad Penybont ar Ogwr. Gyda phoblogaeth o oddeutu 400, y mae'n le bach a distaw sy'n adnabyddus am ei gysylltiadau a'r awdur Agatha Christie a arferai ymweld â'r pentref lle mae ei pherthnasau yn parhau i fyw.

Ceir gwybodaeth am y Cyngor, yr aelodau a'i gweithgareddau ar wefan y Cyngor.

https://www.colwinstoncommunitycouncil.co.uk/




Mae Tregolwyn yn un o dri pentref yng Nghymru a adwaenir fel pentref diolchgar gan na chollwyd bywyd yn ystod y Rhyfel Byd 1af.

**Gair o'r Gadair**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi canolbwyntio ar welliannau o fewn ein cymuned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn falch o sefydlu Grŵp Prosiect y Hen Rhyd sydd wedi ymgymryd â'r dasg o wneud gwelliannau yn yr ardal honno gyda dôl blodau gwyllt deniadol.

Y brif dasg i'r Cyngor fu ymateb i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol sydd wedi gofyn am gynrychiolaethau mewn perthynas â'u hadolygiad o drefniadau cymunedol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ystyried bod gormod o Gynghorau Cymuned yn y Fro a hoffai weld gostyngiad yn y nifer. Mae Cyngor Cymuned Tregolwyn o'r farn na fyddai hyn yn fuddiol ac wedi gwneud ein cynrychiolaethau yn unol â hynny.

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i glywed gan y pentrefwyr am welliannau posibl y gellid eu gwneud o fewn ein cymuned ac yn croesawu awgrymiadau.




Mae 7 Cynghorydd a Chlerc yn ffurfio Cyngor Cymuned Tregolwyn

Cadeirydd – Cynghorydd E Lewis
ehlewisccc@gmail.com

Is-Gadeirydd –Cynghorydd G Jones
garethjccc@gmail.com

Cynghorydd B Morris
brian.morrisccc@uwclub.net

Cynghorydd C Hadley
carltwmpath@gmail.com

Cynghorydd Huw Thomas
HHThomasccc@gmail.com

Cynghorydd J Lloyd (Ymddiswyddodd Mai 2023)
Sedd wag i'w llenwi

Cynghorydd Tanya Wilson (Ymddiswyddodd Mai 2023)
Sedd wag i'w llenwi

Clerc Ms Sian Hookins
colwinstoncc@gmail.com

Ers 2017, y Cynghorydd Sir etholedig dros Tregolwyn yw'r Cyngh Christine Cave. Fe'i hail etholwyd ym Mai 2022. Yn ystod 2023, parhaodd i gefnogi'r cydadwaith rhwng CCT a Chyngor Bro Morgannwg. Cefnogodd amryw o brosiectau cadwraeth yn y pentref a bu'n cyntedda'r Cyngor am bolisi ffyrdd lleol a gwell mynediad i'r ganolfan ailgylchu yn Llandw. Mae'n mynychu cyfarfodydd CC yn rheolaidd a gellir cysylltu â hi drwy e-bost: cacave@valeofglamorgan.gov.uk

**<u>Gwybodaeth Ariannol</u>**

**Adroddiad Blynyddol 31 Mawrth 2023**

| | | **£'000** | **£'000** |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| | Praesept | 15 | |
| | Grantiau | 20 | |
| | Ad-daliad TAW | 3 | |
| | | | **38** |
| **Gwariant** | Costau Cynnal | 10 | |
| | Costau Prosiect | 24 | |
| | TAW | 3 | |
| | | | **37** |
| **Gweddill/Diffyg** | | | **1** |

**<u>Awdit</u>**

<u>2022/23</u>
Cynhaliwyd Awdit Mewnol gan H A Davies a ddaeth i'r casgliad:
*'Rwyf yn fodlon bod y trafodion a wnaed wedi eu nodi'n gywir yn y cofnodion a dogfennau cynhaliol. Gallaf ardystio bod holl ofynion y Ffurflen Flynyddol wedi'u bodloni a'm bod wedi arwyddo'r adran briodol yn dyst i hyn.*
Archwiliad allanol i'w gwblhau.

<u>2021/22</u>
Mae Swyddfa Awdit Cymru wedi cwblhau ei archwiliad gydag adroddiad diamod heb faterion yn codi.

**Gweithgareddau & Prosiectau**

Parhau a wna'r drafodaeth gyda'r Fro iddynt fabwysiadu ffyrdd y Vines a Heol Cae Pwll. Tra bod peth symud ymlaen 'rydym yn dal i ddisgwyl i'r Fro gadarnhau eu gofalaeth o'r ffyrdd.
Mae'r Cyngor mewn trafodaeth a Chofrestrfa Tir EF i gael teitl ffurfiol dros barseli o dir yn y pentref a fu'n rhan o'r Plwyf ond lle collwyd y dogfennau perthnasol. Dylid nodi bod bron i 40 mlynedd o ddogfennau Cyngor y Gymuned ar goll a chredwn eu bod wedi eu dinistrio.

**Y Rhyd Hen**

Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd y Cyngor eu prosiect, a adwaenir yn lleol fel Y Rhyd Hen, a arianwyd twy grant. Bellach mae pwll, ardal blodau gwyllt a hen goetir yn yr ardal gerllaw'r ffynnon a'r bont faen a atgyweirwyd.
Oherwydd cyflwr y coed yn yr ardal a chyfyngiad ar gyllid, yn anffodus defnyddiwyd mwy nag a fwriadwyd o'r arian.

**Ffynnon Sych**





**Llysywod Dwr Croyw Ewropeaidd**

Pan ostyngodd lefel y dwr cafwyd syrpreis. Cadarnhaodd yr Amgueddfa Hanes Naturiol a Chymdeithas Swolegol Llundain fod amryw o lysywod dwr croyw Ewropeaidd yn 7y war y gwaelod. Ystyrir eu bod dan fygythiad ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu eu cynefin. Honnir bod amryw yn Loch Ness ac mae'r Cyngor wedi enwi hon yn Collwellie!



**Comisiwn Ffiniau**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnal adolygiad o'i ffiniau a gall hyn arwain at gyfuno Cynghorau Cymuned sydd ag etholaeth dan 1000 o bobl. Ymatebodd Tregolwyn i'r ymgynghoriad gan amlygu'r grwpiau lleol ac unigolyddiaeth y Gymuned a sut y collir hyn pe cyfunir a chyngor arall a leolir cryn bellter i ffwrdd.

**Cynllun Datblygiad Lleol**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn y broses o ddiweddaru eu Cynllun Datblygiad Lleol. Cynllun yw hwn o sut a ble y bydd datblygiadau yn digwydd yn y Fro. Crybwyllwyd nifer o safleoedd o fewn Tregolwyn a bydd y cyngor yn parhau i ymateb i'r broses ymgynghori ar y cynigion hyn. Fe'ch anogwn i fod yn ymwybodol o'r rhain. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

**Band Eang Ffibr a ffonau symudol**

Blwyddyn rwystredig arall. Ers i ni wneud cais i Openreach, dros bedair mlynedd yn ôl, i gael BEFf ar draws ardal Tregolwyn, mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi newid y cynllun talebau o leiaf dwywaith. Yn y ddau achos, cwblhawyd y ceisiadau manwl iawn mewn pryd ond newiddiodd y cynlluniau cyn i ni fynd drwy'r system. 'Rydym yn aros am ganlyniadau'r adolygiadau amrywiol i weld beth fydd y cam nesaf. Yn y cyfamser, cysylltwyd tua 25 adailad i'r FfBE. Cafwyd trafodaethau gyda chwmni masnachol Netomnia ond nid ydynt yn mynegi llawer o ddioddordeb. Mae stadau tai newydd yn haws I'w cysylltu na phentref gwledig. Trefnwyd, gyda chwmni o Gaergrawnt, i osod bwster ffon symudol ar yr ysgol newydd. Cawsom drwydded i drawsyrry, ond gwrthododd y Cyngor ganiatad i ni wneud tyllau ym muriau'r ysgol. 'Rydym yn ceisio gosod un ar Neuadd y Pentref ond ni allwn, ar hyn o bryd, gael grant. Mae pwyllgor y Neuadd yn hapus i ni wneud tyllau ym muriau'r adeilad.

**Cynlluniau'r Dyfodol**

Bu gwariant y Cyngor ar brosiectau lleol yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac felly, rhaid bod yn wyliadwrus o'r cyllid. Golyga hyn eu bod wedi codi'r praesept am y flwyddyn ganlynol i helpu cyrraedd eu hamcanion a chael digon o arian i gynnal a chynorthwyo'r gymuned. Nod mwyaf blaenllaw y cyngor yw ceisio cyllid ychwanegol i gwblhau'r gofal o'r coetir ac i'w agor er mwynhad y cyhoedd. Mae'r cyngor yn rhagweithiol yn eu cadwraeth o'r amgylchedd a gobeithir canolbwyntio yn y dyfodol ar y cerrig milltir rhestredig a'r blwch post.

**Os hoffech fanylion pellach neu os oes gennych ymholiad am unrhyw agwedd o'r cyngor yna cysylltwch a ni. Gwelir aelodau'r Cyngor yn aml o gwmpas y pentref neu byddant yn eu cyfarfod yn Neuadd y Pentref ar y trydydd dydd Llun o'r mis.**

**Ffynnon Sych**

Yn ystod sychni'r haf bu i'r dwr bron a diflannu. Caniataodd hyn i'r Saer Maen wneud arolwg o waliau'r ffynnon a oedd, yn anffodus, yn dangos arwyddion o graciau a chrymu. I gywiro hyn denfyddiwyd pwyslathau i gynnal y waliau i'w diogelu rhag cwympo. Ni ostegodd y dwr i'r lefel hwn am 50 mlynedd ond wrth gwrs os digwydd yn amlach, bydd angen atgyweiriad mwy sylweddol. Pan gododd y lefel, gadawyd y pridd ar y stepiau i helpu gyda chadwraeth. Rhoddwyd gridyll hirach i sicrhau diogelwch pobl pan fyddant yn edych i lawr ac hefyd i arbed y maen sydd a'r dyddiad 1980 wedi'i grafu arno.